Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Southdown
# Linderick Avenue
# Bwcle
# Sir y Fflint
# CH7 2NP

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Southdown ym Mwcle, tref ger yr Wyddgrug, ym mwrdeistref sirol Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn un o bedair ysgol gynradd sy'n gwasanaethu cymuned y dref. Agorodd yr ysgol ym 1976. 'Cynllun agored' sydd i'r adeilad un llawr, ac mae tir eang braf o amgylch yr ysgol.

Mae 416 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 55 o blant sy'n mynychu'n rhan amser yn y feithrinfa. Trefnir yr ysgol yn 16 o ddosbarthiadau ar gyfer disgyblion o allu cymysg, gyda dosbarthiadau cyfochrog ym mhob grŵp blwyddyn. Yn rhannau uchaf cyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion mewn setiau gallu ar gyfer ychydig o wersi mewn llythrennedd. Yn 11 oed, mae bron yr holl ddisgyblion yn trosglwyddo i ddewis o ddwy ysgol gyfun leol yn yr ardal.

Mae hawl gan ryw 13% o'r disgyblion i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef ychydig yn is nag 20%.

Saesneg yw prif iaith yr holl ddisgyblion bron. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith yn y cartref. Mae llai na 3% o'r disgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae bron yr holl ddisgyblion yn siarad Saesneg yn rhugl a darperir addysgu iaith ychwanegol ar gyfer nifer fach iawn. Nododd yr ysgol bod gan 26% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Yn Ionawr 2010, roedd datganiad o anghenion addysgol arbennig gan un disgybl, ond nid oes unrhyw ddisgyblion â datganiad y tymor hwn. Nid oes unrhyw blant sy'n derbyn gofal ar y gofrestr. Cafodd un disgybl ei wahardd am gyfnod penodedig yn ystod y deuddeng mis cyn yr arolygiad.

Mae'r ysgol wedi cyflawni Cam 5 o'r dyfarniad Ysgolion Iach, ActiveMarc Cymru, y Marc Safon Sgiliau Sylfaenol, Dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl a gwobr Baner Werdd Eco-ysgolion.

Yn 2005 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Ymunodd y pennaeth â'r ysgol ym 1993 ac fe'i penodwyd yn bennaeth yn 2008.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Southdown oedd £2,735. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir y Fflint oedd £7,635 a'r isafswm oedd £2,660. Ysgol Gynradd Gymunedol Southdown oedd â'r gyllideb, fesul disgybl, 71 uchaf o'r 74 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Digonol yw'r farn gyffredinol ar gyfer perfformiad presennol yr ysgol. Cryfderau'r ysgol yw:

- mae'r disgyblion yn gwrtais, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn awyddus i ddysgu;
- mae'r staff yn frwdfrydig ac yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol a threfnus;
- mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol;
- mae cymorth da i'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- mae gweithgareddau effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn dysgu sut i fod yn iach; ac
- mae cyfleoedd da ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Fodd bynnag:

- mae tueddiadau dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos nad yw'r ysgol yn gyffredinol yn perfformio gystal ag ysgolion tebyg eraill yng nghyfnod allweddol 2;
- mae diffygion yn safonau'r disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu;
- nid oes disgwyliadau ddigon uchel gan y staff o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni; ac
- nid yw disgyblion yn gwybod yn glir beth sy'n rhaid iddynt wneud i wella'u gwaith.

### Rhagolygon gwella

Digonol yw'r farn gyffredinol ar gyfer rhagolygon gwella. Cryfderau'r ysgol yw:

- yr ethos cadarnhaol lle mae'r staff yn gweithio fel tîm ac yn dangos ymrwymiad i'r ysgol a'i disgyblion;
- y strwythurau a'r polisïau rheoli clir;
- y gymuned drefnus iawn; a'r
- bartneriaeth gefnogol, gryf gyda rhieni.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr a rheolwyr yn monitro perfformiad yr ysgol yn ddigon trylwyr, felly nid ydynt yn gweld y diffygion yn safonau'r disgyblion;
- nid yw'r broses hunanarfarnu wedi'i datblygu'n ddigonol; ac
- nid yw monitro gwersi yn nodi meysydd i'w datblygu'n ddigon da.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i Ysgol Gynradd Southdown:

A1 wella safonau disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu ar draws yr ysgol;

A2 sicrhau bod disgyblion yn parhau i wneud cynnydd mewn Cymraeg fel ail iaith, yn enwedig yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2;

A3 gwella cynlluniau athrawon er mwyn sicrhau dilyniant mewn medrau allweddol disgyblion ar draws y cwricwlwm;

A4 sicrhau bod yr addysgu'n cynnig digon o her i ddisgyblion o bob gallu er mwyn codi safonau;

A5 gwella ansawdd a chysondeb marcio er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwybod yn gliriach sut gallant wella'u gwaith; a

A6 gwella systemau hunanarfarnu er mwyn gallu mynd ati i asesu a monitro perfformiad disgyblion ac athrawon yn effeithiol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn ymgartrefu'n gyflym i drefn y dosbarth, ac maent yn hyderus wrth ddewis gweithgareddau ac yn datblygu annibyniaeth. Trwy gydol y cyfnod, mae disgyblion yn gwrando, yn siarad ac yn cydweithredu'n dda. Maent yn dechrau datblygu strategaethau da ar gyfer darllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o bob gallu yn darllen yn hyderus ond nid ydynt yn meddwl digon am y stori bob amser i wella'u dealltwriaeth.

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu medrau ysgrifennu da, ond nid yw llawer ohonynt yn dysgu sut i ddal pensiliau yn dda. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd o ran ffurfio llythrennau a datblygu arddull llawysgrifen effeithiol.

Am y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol wedi bod yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol a lleol, ac yr un fath â chyfartaledd ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion yn gyffredinol wedi perfformio gystal o ran cyrraedd y lefelau disgwyliedig o gymharu â disgyblion mewn ysgolion eraill. Yr eithriad oedd yn 2009-2010, pan roedd cyrhaeddiad yn well na chyfartaledd Cymru gyfan a chyfartaledd Sir y Fflint ym mhob un o'r tri phwnc craidd, ac yn well na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg mewn mathemateg. Roedd cyrhaeddiad bechgyn a merched yn Saesneg yn 2011 islaw'r cyfartaledd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu ac yn trafod geirfa newydd yn hyderus. Mewn darllen, nid yw disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn deall y testun yn ddigon da ac maent yn camddarllen geiriau. Nid oes digon o safonau darllen disgyblion ymhell uwchlaw eu hoedrannau cronolegol. Trwy gydol y cyfnod allweddol, nid yw medrau ysgrifennu disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Maent yn gwybod sut i ysgrifennu at ddibenion gwahanol ond nid ydynt yn cynhyrchu darnau o waith estynedig o ansawdd digon da. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio atalnodi sylfaenol, fel priflythrennau a pharagraffau, yn gywir. Nid yw pob un o'r disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn ddigon da.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig neu'r disgyblion mwy galluog, yn gwneud cynnydd digonol, ond nid ydynt yn gosod nodau digon uchel iddynt eu hunain i wneud yn well. Yn 2011, roedd perfformiad cyffredinol disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael prydau ysgol am ddim yn well na pherfformiad disgyblion tebyg mewn ysgolion eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, ni wnaeth y disgyblion hynny berfformio gystal â'r rhai yn cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion eraill.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg. Maent yn dechrau datblygu medrau

llafar yn ifanc, ond mae eu cynnydd o ran siarad a darllen yn arafu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Nid yw'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn gywir bob amser nac yn deall y testun. Roedd cyrhaeddiad o gymharu â'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

**Lles: Da**

Mae safon lles y disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr hapus, cydweithredol, sylwgar a brwdfrydig. Maent yn ymroi yn dda mewn gwersi, yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol at weithgareddau dysgu ac yn gyffredinol yn cynhyrchu'r hyn y gofynnir amdano. Mae ymddygiad bron yr holl ddisgyblion yn rhagorol yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn foesgar, yn gyfeillgar ac yn gwrtais i oedolion a'i gilydd. Gweithiant yn dda gyda'i gilydd mewn parau a grwpiau, maent yn rhannu'n dda ac yn dangos parch at farnau ei gilydd. Dywed yr holl ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn hyderus y bydd y staff yn rhoi cymorth priodol iddynt pan fydd ei angen.

Mae dealltwriaeth dda gan bob un o'r disgyblion am ddulliau iach o fyw. Mae'r ysgol gyfan yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau 'Wake-up, Shake-up' yn yr awyr agored ar ddiwedd yr egwyl ganol dydd. Drwy'r gweithgarwch hwn, mae'r disgyblion yn dysgu i ddeall pwysigrwydd ymarfer corff. Mae dealltwriaeth gadarn gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn o fuddion bwyta diet iach.

Mae presenoldeb y disgyblion yn dda ac ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan. Yn 2009-2010, roedd presenoldeb y disgyblion yn y 25% uchaf o gymharu â phresenoldeb ysgolion eraill. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon.

Mae cyngor yr ysgol yn chwarae rhan weithgar ym mywyd yr ysgol. Mae'n llwyddo i helpu cefnogi digwyddiadau codi arian, ac yn chwarae rhan gynyddol yn cyfrannu awgrymiadau ar gyfer gwella'r ysgol. Cynigir cyfleoedd da i ddisgyblion hŷn gyfranogi yn y gymuned leol, pan fyddant, er enghraifft, yn dysgu sut mae'r cyngor lleol yn gweithredu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang a chytbwys o brofiadau dysgu. Mae'r athrawon yn cynllunio'n dda gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb ar draws pob grŵp blwyddyn. Mae profiadau dysgu a gynllunnir yn y Cyfnod Sylfaen yn annog disgyblion i wneud dewisiadau a datblygu'n annibynnol. Fodd bynnag, mae'r amser addysgu ychydig o dan yr 21 awr a argymhellir gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn gwneud yn fawr o gyfleoedd i ddatblygu medrau allweddol disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu. Nid yw'r cynllunio ychwaith yn cynnig digon o her i ddisgyblion bob tro. Er enghraifft, mae taflenni gwaith yn cael eu defnyddio gormod. Yn ymarferol, nid oes fawr o dystiolaeth bod gwaith yn y dosbarth yn diwallu anghenion disgyblion o alluoedd

gwahanol. Yr eithriad yw llythrennedd, lle'r tymor hwn, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cael eu rhoi mewn grwpiau gallu er mwyn dilyn cynllun cyhoeddedig newydd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i asesu effaith y fenter hon.

Er bod yr ysgol yn defnyddio'r cynllun gwaith a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, mae diffyg cysondeb cyffredinol drwy'r ysgol wrth gynllunio ar gyfer dilyniant mewn datblygu medrau iaith Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, gwneir defnydd da o adnoddau i gynorthwyo dilyniant. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2 mae gormod o orgyffwrdd ac ailadrodd themâu a phatrymau. Mae'r ysgol yn mynd ati'n briodol i hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol yn gwella dysgu'r disgyblion. Cynigir darpariaeth dda o ran addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn rhagweithiol ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig ag ystod o brosiectau diddorol. Nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu gystal. At ei gilydd, mae darpariaeth dda i ddisgyblion gynyddu'u dealltwriaeth o grefyddau a diwylliannau gwahanol.

### Addysgu: Digonol

Yn yr holl wersi a arsylwyd ar draws yr ysgol, mae perthnasoedd da rhwng y staff a'r disgyblion ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ymdeimlad y disgyblion o les a'u brwdfrydedd ar gyfer dysgu.

Lle bo'r addysgu yn dda, mae'r gwersi yn cynnwys amcanion dysgu clir sy'n briodol i oed a gallu disgyblion, ac fe'u cyflwynir ar gyflymder da. Gwna'r staff ddefnydd da o ystod amrywiol o adnoddau a defnyddir staff cymorth yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi nid yw'r gweithgareddau yn cynnig digon o her i'r disgyblion. Lle bo diffygion, mae disgwyliadau'n rhy isel, mae cyflwyniadau'n rhy hir a'r dull cyflwyno yn rhy araf. Nid yw'r gwersi bob amser yn darparu'n ddigon da ar gyfer disgyblion drwy'r ystod gallu cyfan.

Mae gweithdrefnau clir a thrylwyr gan yr ysgol ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain disgyblion. Fodd bynnag, er bod yr ysgol yn casglu llawer iawn o ddata, nid yw'n defnyddio'r data hwnnw'n dda i geisio canfod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Nid yw gwaith marcio'r rhan fwyaf o'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod yn glir sut gellir gwella'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio strategaethau i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ond newydd ddechrau cael ei ddatblygu y mae hwn.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda yn gyson am gyflawniad a lles eu plant.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae disgyblion a rhieni yn gwerthfawrogi amgylchedd diogel a gofalgar yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn rhannu dealltwriaeth a chyfrifoldeb am ofal, cymorth ac arweiniad, ac maent yn gwbl ymroddedig i sicrhau lles y disgyblion. Mae gweithdrefnau clir a threfnus ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn cynnal safonau ymddygiad da iawn. Cynigir cyfleoedd da i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb, dangos menter a datblygu dealltwriaeth o fyw mewn cymuned. Mae profiadau dysgu'n

hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Ceir ymyrraeth gynnar effeithiol er mwyn nodi anghenion ac i gynllunio cymorth unigol priodol. Mae systemau da ar waith i fonitro cynnydd y disgyblion hyn ac i ddiwallu'u hanghenion sy'n newid. Mae'r ysgol yn mynd ati'n rhagweithiol i sefydlu a chynnal ystod o systemau cymorth gan wasanaethau arbenigol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les y disgyblion.

Mae'r ysgol yn mynd ati'n effeithiol iawn i hyrwyddo buddion ffordd iach o fyw a diet iach.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer amddiffyn plant. Daethpwyd ag un mater iechyd a diogelwch i sylw'r ysgol yn ystod yr arolygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cadarnhaol gan yr ysgol a chaiff yr holl ddisgyblion eu hannog i drin ei gilydd yn deg ac yn gyfartal. Mae pob disgybl yn cael mynediad cyfartal i ddarpariaeth yr ysgol, ac fe'u hanogir i gyfranogi mewn ystod o weithgareddau. Maent yn hyderus fod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw faterion yn ymwneud ag ymddygiad gwael.

Mae'r safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae arddangosiadau o waith disgyblion yn gwella'r amgylchedd dysgu. Ceir ardaloedd dysgu deniadol yn yr awyr agored, gan gynnwys gardd wyllt ac ardal ysgol goedwig, sy'n cynnig cyfleoedd da i wella dysgu'r disgyblion, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r staff yn gwneud gwaith da o reoli cyfyngiadau dyluniad cynllun agored yr adeilad, a'r amrywiadau ym maint ystafelloedd yn sgil hynny, er mwyn sicrhau nad yw'r adeilad yn effeithio'n negyddol ar ddysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, mae neuadd yr ysgol yn fach iawn, ac er bod y trefniadau amser cinio'n cael eu rheoli'n dda, maent yn anodd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod pawb yng nghymuned yr ysgol yn rhannu gweledigaeth a gwerthoedd cyffredin mewn perthynas â lles, profiadau addysgol a phrofiadau cymdeithasol y disgyblion. Adlewyrchir hyn yn yr ethos cadarnhaol ar draws yr ysgol lle mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm.

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus iawn. Mae ei strwythurau, ei pholisïau a'u rolau rheoli yn glir. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn ddigon ymwybodol o feysydd i'w gwella'n sylweddol, ac felly nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel bob amser. Nid ydynt yn mynd ati'n effeithiol o hyd i herio staff er mwyn sicrhau gwelliant cyson

mewn deilliannau academaidd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth berthnasol am berfformiad y disgyblion, a bydd arweinwyr yn ei dadansoddi'n fanwl. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon da o hyd, ac maent yn colli cyfleoedd i ganolbwyntio ar agweddau penodol i godi safonau academaidd yn effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac wedi sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, nid ydynt yn monitro perfformiad yr ysgol yn ddigon manwl i gefnogi a herio disgwyliadau'r ysgol. Mae'r ysgol yn talu sylw da i lawer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau lleol. Er enghraifft, mae'n defnyddio'r safle'n dda i wella'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae prosesau manwl ar waith ar gyfer deall cryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella, sy'n cynnwys gofyn am farnau rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio tystiolaeth berthnasol bob tro wrth arfarnu'i chryfderau a meysydd i'w datblygu.

Yn ei chynllun datblygu, mae'r ysgol yn briodol wedi nodi'r angen i godi safonau yn Saesneg, ac mae wedi cyflwyno cynllun cyhoeddedig newydd. Fodd bynnag, nid yw wedi ystyried rhai strategaethau sylfaenol i wella safonau yn y pwnc, fel gwella llawysgrifen disgyblion a defnyddio atalnodi.

Caiff holl aelodau'r staff eu cynnwys yn rheolaidd mewn gweithdrefnau hunanarfarnu ac maent yn cytuno ar flaenoriaethau. Mae pob athro'n cymryd cyfrifoldeb am fonitro maes o'r cwricwlwm. Ymhlith eu tasgau ceir arsylwi gwersi, monitro gwaith disgyblion ac adrodd yn ffurfiol ar eu canfyddiadau. Mae'r staff yn rhy hael yn eu harsylwadau ac felly nid ydynt yn nodi strategaethau allweddol ar gyfer gwella. Er enghraifft, nid ydynt wedi nodi anghysonderau yn ansawdd yr addysgu a marcio.

Mae'r pennaeth yn cyfarfod yn rheolaidd â grwpiau o ddisgyblion i ystyried eu barnau, ond nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfle i ddylanwadu ar eu dysgu'u hunain.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol o ansawdd da yn yr ysgol yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu'u gwybodaeth broffesiynol. Mae'r mentrau hyn yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ac ar drosglwyddo rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gysylltiedig ag ystod eang o bartneriaethau sy'n gwella'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu'r disgyblion. Ceir cysylltiadau da â rhieni; rhoddir gwybodaeth dda iddynt am ddysgu'u plant. Mae cymdeithas rieni weithgar yn codi symiau arian sylweddol, sy'n gwella darpariaeth yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o gysylltiadau yn yr ardal. Mae cysylltiadau gyda chyngor y dref yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o gymuned a democratiaeth. Mae gwasanaethau lleol fel yr heddlu a'r frigâd dân yn ymweld â'r ysgol ac yn datblygu diogelwch a lles y disgyblion. Mae cysylltiadau da gyda'r eglwys leol yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

Mae’r ysgol yn rheoli’r cyfnod pontio’n effeithiol. Caiff disgyblion sy’n symud ymlaen i ysgolion uwchradd eu paratoi’n dda. Mae cofnodion, sydd wedi’u cytuno gan ysgolion lleol, yn rhoi gwybodaeth allweddol i’r ysgolion derbyn am gyflawniad disgyblion.

Mae cysylltiadau datblygedig gydag ystod o sefydliadau a cholegau hyfforddi athrawon a gweithwyr cymorth.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn dda ac yn sicrhau eu bod yn llwyr gysylltiedig â’i chynllun datblygu. Caiff y gyllideb ei monitro’n ofalus.

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwys a phrofiadol a ddefnyddir mewn modd addas. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd eu colli i sicrhau bod staff cymorth dysgu’n cael eu defnyddio’n dda bob amser i gefnogi dysgu’r disgyblion. Cynigir cyfleoedd da i’r staff fynychu cyrsiau hyfforddi priodol, er enghraifft i ddatblygu’u medrau i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

At ei gilydd, mae ystod da o adnoddau priodol gan yr ysgol. Mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian am fod yna feysydd i’w gwella’n sylweddol mewn safonau ac yn yr addysgu.

## Atodiad 1

**Sylwebaeth ar ddata perfformiad**

**Dadansoddi data**

Y pynciau craidd yw Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Y dangosydd pwnc craidd (DPC) yw'r lefel ddisgwyliedig y disgwylir i ddisgyblion ei chyrraedd ym mhob un o'r tri phwnc yn gyfunol, ar ddiwedd pob cyfnod allweddol. Y 'teulu' yw grŵp o ysgolion ledled Cymru sy'n wynebu heriau tebyg ar sail eu grŵp economaidd-gymdeithasol a nifer y disgyblion ar y gofrestr.

**Cyfnod allweddol 1**

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion yn y DPC ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan a chyfartaledd Sir y Fflint, a'r un fath â chyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn 2011, roedd perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 yn well na'r holl gymaryddion.

Dangosodd gyrhaeddiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 batrwm tebyg o welliant dros gyfnod. Roedd gwelliant sylweddol yng nghyfran y disgyblion yn cyrraedd y lefel 3 uwch, yn y ddau bwnc, yn 2011.

Mewn Saesneg, mae cyrhaeddiad disgyblion mewn llefaredd a darllen wedi bod yn gryf, ond mae cyrhaeddiad mewn ysgrifennu yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu. Mae cyrhaeddiad ar y lefel 3 uwch wedi codi'n gyflym dros y pum mlynedd diwethaf, ac yn 2011 roedd yn well na'r holl gymaryddion.

O gymharu ag ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd), fe wnaeth perfformiad y disgyblion yn 2010-2011 roi Ysgol Gynradd Gymunedol Southdown yn y 25% uchaf o ysgolion ar gyfer Saesneg a'r DPC. Roedd yn y 50% uchaf o ysgolion ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 1, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn yn y DPC a phob un o'r pynciau craidd.

**Cyfnod allweddol 2**

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion yn y DPC, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, wedi bod yn gyffredinol is na'r holl gymaryddion bron, ac ymhell islaw yn 2011. Yr eithriad oedd yn 2010, pan roedd cyrhaeddiad y DPC ar gyfer y disgyblion hynny a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion felly. Roedd perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn is o lawer nag yng nghyfnod allweddol 1.

Yn 2011, roedd perfformiad disgyblion mewn Saesneg yn is na phob un o'r cymaryddion, a'r isaf yn y teulu o ysgolion. Roedd cyrhaeddiad yn 10% yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cyrhaeddiad yn wan mewn llefaredd ac ysgrifennu. Mae cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel 5 uwch wedi disgyn rhwng 2007 a 2011.

Roedd cyrhaeddiad disgyblion mewn mathemateg yn 2011 yn is na'r holl gymaryddion ar gyfer y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch. Gwelwyd gostyngiad tebyg mewn cyrhaeddiad mewn gwyddoniaeth. O gymharu ag ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd), fe wnaeth perfformiad y disgyblion yn 2010-2011 osod yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer pob un o'r tri phwnc craidd a'r DPC.

Ni fu unrhyw wahaniaeth sylweddol yng nghyrhaeddiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2.

Cafwyd gwelliant mewn cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob pwnc yn 2009-2010, ond ni wnaeth yr ysgol berfformio gystal o hyd mewn Saesneg a gwyddoniaeth y flwyddyn honno o gymharu ag ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i gael PYDd. At ei gilydd, fe wnaeth safonau cyrhaeddiad ostwng yn sylweddol yn 2010-2011. Roedd yr ysgol wedi nodi bod anghenion addysgol arbennig gan gyfran sylweddol o ddisgyblion yn y garfan. Ni wnaeth hyn gyfrif am y diffygion a nodwyd gan yr arolygiad yng ngwaith y disgyblion hynny ac mewn data arall a ddarparwyd gan yr ysgol fel tystiolaeth.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i holiaduron dysgwyr

Cwblhaodd 85 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Bu'r arolygwyr hefyd yn siarad â disgyblion unigol a grwpiau cynrychioliadol o ddisgyblion ar draws yr ysgol. Nid oes llawer o amrywio rhwng ymatebion bechgyn a merched. Mae'r holl ddisgyblion o'r farn fod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, ac maent yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn teimlo bod eu gwaith yn anodd. Mae'r holl ddisgyblion yn dweud eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, yn dweud bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, ac yn cytuno bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall eu gwaith a'i wella.

Mae'r disgyblion i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach ac yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio, ond mae lleiafrif o'r farn fod ymddygiad disgyblion eraill yn amharu ar eu gwaith yn y dosbarth.

At ei gilydd, mae'r barnau hyn ychydig yn fwy cadarnhaol na barnau disgyblion mewn ysgolion eraill ledled Cymru.

### Ymatebion i holiaduron rhieni

Cwblhaodd 168 o rieni yr holiaduron. Rhoddwyd ymatebion cadarnhaol i bob cwestiwn gan yr holl rieni bron. Dim ond un y cant o rieni wnaeth roi ymatebion negyddol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cytuno eu bod yn fodlon â'r ysgol, bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da.

Mae'r holl rieni'n cytuno bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Dywed yr holl rieni bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol a'u bod yn teimlo'n esmwyth o ran mynd at yr ysgol os oes ganddynt gwestiynau neu bryderon.

Mae pob un o'r rhieni'n hyderus bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol. Teimlant hefyd fod y staff yn trin disgyblion â pharch, a bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n cytuno'n gryf fod yr ysgol yn cynnig amrywiaeth dda o weithgareddau a'i bod yn annog disgyblion i fod yn iach.

Mae'r rhieni i gyd bron yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth dda yn gyson am gynnydd eu plentyn, bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol a'i fod yn cael cymorth priodol ar gyfer unrhyw anghenion penodol, a bod gwaith cartref yn cefnogi'u dysgu. Mae bron pob un o'r rhieni yn cytuno hefyd fod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol a

bod y staff yn trin pob plentyn yn deg.  Dywed yr holl rieni bron eu bod yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

At ei gilydd, mae rhieni yn Ysgol Gynradd Gymunedol Southdown yn fwy cadarnhaol yn eu hymatebion ynglŷn â'r ysgol na rhieni mewn ysgolion eraill ledled Cymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Rosemary Lait | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Morien Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andrew Wilkie | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | BY12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |